# DINESYDD Dydd Sadwrn

10c
12 Awst 1978

# 'MAE GEN I DOCYN'

J. Idris Evans
Swyddfa'r Eisteddfod
24 Windsor Place, CAERDYDD (
Ffôn: (0222) 398316/7

This is to certify that the Rev. E.Gwyndaf Evans Recorder of the Gorsedd has been given permission to bring his car into the Eisteddfod Site throughout this week.

The Reg. No. is PBY 73S.

*Llythyr a welwyd yn ffenestr car y Cofiadur*

## Bananas Ar Log

Bydd Siop y Triban yn gwerthu bananas y bore 'ma am £1.20 yr un — ond os ydych chi'n meddwl fod hynny braidd yn ddrud, hwyrach y dylem ychwanegu eu bod yn rhoi copi o record ddiweddaraf y Trwynau Coch yn rhad ac am ddim gyda phob banana a brynir! Bydd y Trwynau eu hunain ym mhabell Siop y Triban am 10.30 ymlaen i arwyddo copiau o'r record.

Record arall sydd ar werth gan Siop y Triban yw record newydd sbon y grŵp Ar Log. Bydd y grŵp hwnnw yn galw i mewn i'r babell yn y prynhawn i arwyddo copiau o'u record a brynir yno.

Os na chawsoch bob rhifyn o'r DINESYDD DYDDIOL papur-newydd Cymraeg hanesyddol Eisteddfod Caerdydd, gellwch brynu setiau cyfan o'r chwe rhifyn o babell Y DINESYDD DYDDIOL drwy'r dydd heddiw.

## "Howells of Cardiff"

**Danfonodd Mair Elvet Thomas o Dreganna, Caerdydd lythyr at Mrs Mair Barnes rheolwr Siop James Howell, Caerdydd i gwyno am y ffaith na wneid dim defnydd o'r Gymraeg yn arddangosfa'r siop yn ei ffenestri ar gyfer yr Eisteddfod. Meddai Mrs Thomas, "Y mae gan siop Dafydd Morgan, er enghraifft, arddangosfa ddwy-ieithog ...Beth sydd wedi digwydd yn y siop a sefydlwyd gan James Howell, y Cymro Cymraeg o Abergwaun?"**

**Y mae'n werth dyfynnu o'r llythyr uniaith Saesneg a dderbyniodd Mrs Thomas yn ateb gan Mrs Barnes (sy'n Gymraes Gymraeg) yn yr iaith wreiddiol. Meddai Mrs Barnes, "When you saw the windows last week, they were not quite finished. As you will see we have by now got a very small amount of Welsh in some of the windows to welcome people to the Eisteddfod." Â yn ei blaen i osod ger bron yr un hen ddadl flinedig ynglŷn â chost dwyieithrwydd gan orffen gyda'r frawddeg anfarwol, "I would prefer to employ more people than waste money on such a *luxury*." (Ein hitaleiddio ni. GOL.)**

**Dywed wedyn, "I did not change my policy in the store for the week of the Eisteddfod as some critics would have been quick to say that I was profiteering and taking advantage of the National Eisteddfod in Cardiff. Furthermore they would have said that if I did it for one week of the year, I should do it for the other 51 weeks." Wel, wel, wel, Mrs Barnes! Dyna afresymol y mae pobl, eu bod nhw'n meddwl awgrymu mai peth cwbl naturiol a iawn fyddai i siop James Howell ddilyn polisi o ddwyieithrwydd llawn ar hyd y flwyddyn gron. Mae isho gras, on'd oes?**

## A.S. Teddfodwyr

**Tynnwyd sylw eisoes at y nifer anhygoel o aelodau'r Cabinet sydd wedi ymweld â'r Eisteddfod hon. Roedd Jim (Callaghan) John (Morris) a Merlyn (Rees) yma nos Sul, a bu John 'nôl ddydd Mercher hefyd, wrth gwrs. Gwelwyd Michael Foot yn ei throedio hi o gwmpas y maes ganol yr wythnos a ddoe, cafwyd ymweliad brys gan y "Flying Doctor", David Owen, yr Ysgrifennydd Tramor.**

**Tybed beth yw ystyr hyn oll? A ydyw'r rhain i gyd wedi darganfod eu bod yn Eisteddfodwyr pybyr, ar ôl colli'r hwyl am gymaint o flynyddoedd? Neu ai gwir honiadau Alun Preece (Colofn Lythyrau, Dinesydd DYDD GWENER) fod "diddordeb pleidiol yn yr Eisteddfod... yn ffynnu pan mae etholiad cyffredinol at y gorwel"? Amser yn unig a ddengys — cawn weld faint o'r criw llawen a fydd yn Eisteddfod Caernarfon ym 1979 os bydd Etholiad Cyffredinol wedi ei chynnal cyn hynny.**



**ANNWYL OLYGYDD,**

**Llongyfarchiadau i chi ar y *Dinesydd Dyddiol*. Tybed a gaf i ei ddefnyddio i ymddiheuro i bawb sy wedi gorfod disgwyl cyhyd am ail gyfrol yr Enseiclopidia i blant, CHWILOTA. Mae arna i gywilydd wrth gofio cynifer o blant a'u rhieni sy wedi gofyn i mi pa bryd mae'r ail gyfrol yn ymddangos: wel, mae allan, ac i'w gweld ar y maes, yn unedau Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru a Gwasg Prifysgol Cymru — ynghyd ag addewid pendant na fydd y cyfrolau sydd eto i ddod mor hir yn gweld golau dydd.**

**Pob hwyl ar y gwaith da,**

**Yn bur,**

**D. GWYN JONES**

---

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Mae'r diwylliant Cymreig erioed wedi bod yn rhan o etifeddiaeth y werin gyfan. Ar adeg pan fod mwy a mwy ohonom yn troi i'r meysydd gwyddonol a thechnegol, mae'r syniad o wrthod lle i'r babell wyddonol ar faes yr Eisteddfod (Dinesydd, dydd Mercher) yn wrthun. Os oes na le i wyddoniaeth a thechnoleg yn mywyd y bobl, yna'n sicr mae 'na le iddynt ar faes yr Eisteddfod. Mae effaith cadw diwylliant yn gwbwl ar wahan oddiwrth fywyd bob dydd y werin yn hollol amlwg o edrych ar amgylchiadau mewn gwledydd eraill.*

*Yn gywir,*

*ROY EVANS,*
*Caerdydd.*

---

*ANNWYL OLYGYDD,*

*A all pwyllgorau'r Cyngor beidio â chysgu rhwng un Eisteddfod a'r llall? Mae'n bryd cael llawer mwy o gydweithrediad o flwyddyn i flwyddyn. A all yr eliffant mawr, Y Cyngor, geisio gwneud rhywbeth gwirfoddol? Beth am gael aelodau Pwyllgor Lleol ar y Pwyllgor Canolog o reidrwydd am flwyddyn neu ddwy wedi eu Heisteddfod?*

*Yn gywir,*

*YSGRIFENNYDD UN O BWYLLGORAU LLEOL CAERDYDD.*

---

## DOEBARTHWYR ONEST Y DINESYDD

**Ar ôl gwerthu pecyn o'r *Dinesydd* ar ddydd Mawrth — a derbyn yr ad-daliad arferol fe ddaeth un, Catrin Phillips o Lanbedr Pontsteffan nôl ar ddydd Gwener — 'roedd wedi anghofio rhoi'r arian gwerthu i'r swyddfa! Amaturiaid efallai, Clive Betts, ond amaturiaid onest!**

# O'R POST

**ANNWYL OLYGYDD,**

**Fel y rhai a fu'n gyfrifol am drefnu'r Maes parcio ar ran Canolfan yr Urdd, Caerdydd, fe hoffem ddiolch i bawb a fu'n gweithio gyda ni yn ystod yr wythnos.**

**Nid oedd yn bosibl i ni sicrhau llwyddiant ar ein pen ein hunain 'Roedd hynny yn dibynnu ar gydweithrediad pawb. Peth braf yw gweld pob un o'r gweithwyr cyflogedig yn ymroi'n egnïol i'r gwaith ac yn gwasanaethu'r cyhoedd â gwên.**

**Mae'n dyled ni hefyd i'r aelodau hynny o'r Pwyllgor Rheoli sydd wedi rhoi cefnogaeth ymarferol i'r fenter a'r gwirfoddolwyr eraill sydd wedi bod yn gweithio bob awr o'r dydd a'r nos.**

**Diolch hefyd i'r mwyafrif o'r Eisteddfodwyr am ddilyn y cyfarwyddiadau yr oeddynt yn gael gan y gweithwyr.**

**Oherwydd cydweithrediad y mwyafrif mawr o bobl cafodd yr Eisteddfod wasanaeth Maes Parcio fel y dylai.**

**Unwaith eto, Diolch yn fawr i bawb am ein cynorthwyo.**

**Yr eiddoch yn gywir,**

**RHYS TUDUR,**
**PEDR MACMULLEN,**
**WYN WILLIAMS,**

---

**ANNWYL OLYGYDD,**

**Fe sylwais fod gair bach yn *Y Dinesydd* yn tynnu sylw at y ffaith fod yr afr wedi diflannu. Nid yw'r *Dinesydd* wedi cyhoeddi gair arall ar hyd yr wythnos am y pethau eraill sydd yn dal yno i'w gweld o hyd. Gofynnwyd "pwy a ŵyr beth i'w feddwl erbyn hyn ym myd celf?" Da chi, dewch i mewn i'r babell i weld ac i feddwl drosoch chi eich hunain.**

**Daeth torfeydd mawr iddi bob dydd a nifer fawr yn rhyfeddu at safon y rhan helaeth o'r gwaith. Dangosir llawer iawn o baentiadau gwych, cerfluniau, tryloywderau, defnyddiau a dillad a gwaith plant o safon arbennig o uchel.**

**Ynghyd â gwaith y cystadleuwyr y mae dwy arddangosfa arall sef gwaith wyth crochenydd a chasgliad o fodelau. Dyma'r casgliad gorau o grochenwaith a welwyd gyda'i gilydd, am wn i, erioed mewn Eisteddfod.**

**Yn gywir,**

**SEIRIOL DAVIES,**
**(Aelod o Bwyllgor Celf a Chrefft yr Eisteddfod).**

**ANNWYL OLYGYDD,**

**Fel Eisteddfodwyr brwd o'r Gogledd, fe'm siomwyd yn ddirfawr gan ymfflamychedd honiad Clwb Peldroed Caerdydd yn eu hysbysebion haerllug mai hwy yw "Prif Glwb Pêl-droed Cymru".**

**Fe ŵyr bob peldroediwr gwerth ei halen mai eiddo tîm pêl droed Wrecsam yw'r clod a'r anrhydedd hwnnw.**

**Hyderwn y gwel pabell tîm Caerdydd yn dda i wneud iawn â'r cam drwy gyhoeddi yn anrhydeddus fod y gosfa haeddiannol a gawsant yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru y llynedd wedi gosod y llawryfon yn nwylo Wrecsam.**

**Yr eiddoch yn gywir,**

**ALUN RHYS JONES,**
**GWILYM EVANS,**
**EMLYN DAVIES,**
**DIC ROBERTS.**

*(Mae gorffennol y ddau glwb yn siarad drosto'i hun. Ond mae cyfle gwych i Wrecsam brofi mai nhw yw prif Glwb, erbyn Steddfod Caernarfon! Gol.)*

**ANNWYL DDINASYDDION parhaol?**

**A ninau wedi cael blas ar y *Dinesydd Dyddiol* ga i'ch atgoffa chi y bydd *Dinesydd* mis Medi yn ymddangos fel arfer, ac ynddo bydd y Calendr. Ga i wneud apêl ar i bob Cymdeithas Cymreig yn y ddinas (a'r cyffiniau) anfon rhestr o'u cyfarfodydd i mi, fel y gallaf estyn y wybodaeth i'n holl ddarllenwyr. Dewch nawr, chi ysgrifenyddion, cofiwch fod y gwasanaeth yn rhad ac am ddim.**

**Yn gywir,**

**MALLT ANDERSON**

# COLOFN Shân Emlyn

**Wel, dyma ni - mae hi'n Sadwrn arnom ni. Beth sydd i'w ddweud ar y diwrnod ola' ma? Teimlaf yn llawen iawn - yn gorfforol yn ddigon llegach erbyn hyn ond f'ysbryd wedi'i adnewyddu. Dyna mae'r Eisteddfod yn ei wneud i mi bob blwyddyn - ond yn fwy felly eleni am mai yng Nghaerdydd y mae hi. Nid fy lle i yw barnu beth yw cyfraniad Caerdydd i'r Eisteddfod dim ond gobeithio bod pawb sydd wedi ymweld â Chaerdydd wedi teimlo bod yna awyrgylch o Gymreictod yma a bod 'na adfywiad mawr ar gerdded.**

Dim ond sgil ymhel â pharatoadau'r Eisteddfod hon y mae'r teimlad o glosio at Gaerdydd wedi digwydd. Wrth sgwrsio efo ffrindiau 'rwy'n casglu llawer wedi teimlo'r un peth. Mae 'na falchder bro yma yn y gornel hon o Gymru.

Bydd pawb yn troi am adre toc ar ôl nofio mewn môr o ddiwylliant a chael byw yn y Gymraeg am wythnos gron. Gobeithio'n bod ni wedi cael maeth at y dyfodol yma ac yn ystyr "Cymru" i ni Eisteddfodwyr cofiwn arwyddair ein prifddinas — "Deffro mae'n ddydd".



# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

HTV
CYMRU WALES

# CROESO I FAES YR EISTEDDFOD
## OND COFIWCH AM Y PETHAU A GYNHELIR MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun, Nos Fawrth — Y TŴR (Gwenlyn Parry)
Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher, Nos Iau — OPERA ROC — DIC PENDERFYN
Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener, Nos Sadwrn — PASIANT CYFLWYNO CAERDYDD
Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun, Nos Fawrth, Nos Fercher — BLODEUWEDD (Saunders Lewis)
CWMNI COLEG ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun — Nos Fawrth — Y LLINYN ARIAN (ffilm)

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer)
Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener, Nos Sadwrn — NOS YSTWYLL (cyf. J.T. Jones *o Twelfth Night.*)
Cwmni'r Eisteddfod

**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth, Nos Fercher — PRY YN Y PREN
(rhaglen amrywiol yn cynnwys TRI CHYFAILL gan John Gwilym Jones)

Nos Iau, Nos Wener, Nos Sadwrn — THEATR BYPEDAU
Jane Phillips

# *Pais* yn mynd yn dda

Ar ôl wythnos o werthiant yn yr Eisteddfod datgelwyd fod ymateb gwych wedi bod i'r cylchgrawn i ferched, *Pais*. Brynhawn ddoe bu'r *Dinesydd Dyddiol* yn holi'r golygydd a dim ond ychydig bach iawn o gopiau sydd ar ôl. Felly, os ydych chi eisiau copi, gwell i chi frysio i babell Cymdeithas Tai Gwynedd.

Mae'n ddiddorol nodi fod yna ymateb annisgwyl o dda gan ddynion i *Pais*. Bu amryw o'r dynion yn holi os oes lluniau "diddorol" ynddo.

Pan ofynwyd i'r golygydd a oeddynt am gyhoeddi mwy o "luniau diddorol" neu "luniau *mwy* diddorol" atebodd y buasai *Pais* yn cysidro hyn os y byddai galw gan y dynion...!

# Fframwaith i'r dyfodol

Fel rhiant i blant bach ar y maes ga i dynnu sylw at rai awgrymiadau a gefais yn ystod yr wythnos. O gymharu Eisteddfod Genedlaethol Cymru a'r Sioe Amaethyddol ychydig iawn sydd i blant i'w wneud ar y maes. Mae darpariaeth gwych gan Fudiad Ysgolion Meithrin a'r Comisiwn Coedwigaeth, ond mae'r ddau yma'n golygu bod rhaid mynd â'r plant o'r neilltu iddynt.

Un syniad gwerth ei ystyried, mi gredaf, yw i'r Eisteddfod wahodd cwmniau sy'n gwneud offer plant, fframiau dringo, siglenni, ac ati, i'w gosod ar y maes yma ac acw. Byddai hyn yn cadw'r plant yn hapus am oriau.

Awgrym felly i Bwyllgor Maes Eisteddfod Caernarfon... Beth am siarad â chwmni ynglŷn â'r fenter?

# Hwyl o'r Ŵyl

Dyma syniad yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n ceisio codi arian i Eisteddfodau'r dyfodol. Beth am gardiau post gyda darluniau Eisteddfodol — Y Pafiliwn oddimewn ac oddiallan — neu darlun o'r maes o ben un o bethau tal y BBC a HTV? (Wedi'r cwbwl, 'does fawr o wahaniaeth rhwng tyrfa ar faes Caerdydd a thyrfa ar faes Caernarfon, Tregŵyr a Machynlleth.) Fe fyddai cardiau o'r fath yn ateb y galw am gerdyn addas i anfon cyfarchion Eisteddfodol at hwn a'r llall.




## CAM-GYMERIAD

**Os am weld wyneb yr Ysgrifennydd dros faterion Cymreig bob rhyw bum munud, galwch ym mhabell foethus y Swyddfa Gymreig i weld ffilm o folawd i John ar ei waith gwyrthiol yn adeiladu'r draffordd M4 (singl handed bid siwr).**

**Teimlad digon trist a gafwyd wrth feddwl am yr holl arwyddion Seisnig a fydd yn britho'r ffordd. Chwi wyddoch mai polisi'r Swyddfa Gymreig yw rhoi Saesneg uwchben y Gymraeg gan fod rhoi'r Gymraeg yn ucha yn fwy tebygol o achosi damweiniau.**

**Wrth gamu ymlaen i weld y ffilm, baglodd ein gohebydd a bron syrthio i un o'r loriau anferth ar y sgrin. Ar ôl codi a brwsio'r llwch i ffwrdd gwelodd arwydd yn ei rybuddio "Gwyliwch y grisiau — Mind the step!"**

**Y Gymraeg uwchben y Saesneg! John — ti sy'n iawn!**

# Mwy o goffi

Ar hyd y misoedd diwethaf bu 'Awr Goffi' yn Festri Ucha'r Tabernacl Caerdydd i godi elw tuag at Gronfa'r Eisteddfod. Fe benderfynwyd parhau'r boreau coffi er budd achosion da, felly, Gymry Caerdydd wedi i lwch yr Eisteddfod dawelu, dewch draw i gyfeiriad y Tabernacl bob bore Sadwrn o ddeg o'r gloch ymlaen am goffi a chlonc.



*MERERID a'i bag sbwriel*



*ERYL JONES, un o'r gwerthwyr mwyaf brwd ar y maes.*

Dyma Gefnogwraig ddoe, sef Meleri Mair, aelod o'r grŵp enwog, *Y Diliau*.



## Mae'r Byd Yma'n Fach!

**'Roeddwn i yng nghyntedd y Post House nos lau a digwydd siarad efo gwraig oedd yn fy ymyl. "Rydw i'n dod o Hawkes Bay, Seland Newydd," medde hi. "Mi fûm i yno, lle braf iawn ydy o," meddwn innau. "Mae'n debyg nad ydych chi'n nabod Michael a Barbara Groome. Fe fuon nhw yma rai blynyddau'n ôl yn cynrychioli Llywodraeth Seland Newydd ac mi fum i'n eu tywys o gwmpas Cymru. Eu nabod nhw?" meddai'r foneddiges. "Roedd eu dwy ferch nhw yn yr ysgol ble bum i'n matron am flynyddoedd. Rydw i'n nabod y teulu'n dda."**

**Dyma gymharu nodiadau o ddifri wedyn a chael ein bod ein dwy yn hannu o ardal Machynlleth ac wrth gwrs, yn nabod llawer o'r un pobol. Mrs Buddug Thomas, gynt o Gaerdydd, er enghraifft; 'roedd hi a Mrs Meirionna Evans yn yr ysgol efo'i gilydd. Meirionna Davies oedd hi y pryd hynny. Mae hi'n chwaer hefyd i'r diweddar Barch Alun Davies, Nelson ac yn fodryb felly i Geraint Davies sydd ar staff yr Urdd. Mae Mrs Davies yn aros yng Nghricieth ar hyn o bryd ac yn meddwl efallai y daw hi'n ôl i fyw i Gymru.**

MARIAN REES

# CARTREFI

Dyma'r tro cyntaf i ni fel Cymdeithas ymweld â'r Genedlaethol ond nid dyma'r tro olaf! Sefydlwyd y Cartref ym 1869 gan weinidog Wesley, Thomas Bowman Stephenson, ac erbyn hyn mae gennym 57 o gartrefi. Yng Nghymru, mae'r gwaith wedi ei sefydlu yng Nghaerdydd, Penarth, Abertawe a Dinas Powis, ond mae ffrindiau gennym drwy Gymru i gyd. Felly, pleser mawr ydi bod yma ymhlith ffrindiau a hefyd i wneud ffrindiau newydd. Dyma'r amcan tu ôl i'n hymweliad, ac edrychwn ymlaen i Gaernarfon ac i fynd o nerth i nerth i helpu teuluoedd a phlant sydd ddim mor ffodus ag eraill. Mae'r Steddfod wedi bod yn dda i ni hefyd, oherwydd o'r diwedd dyma ni, yr N.C.H., yn ddwyieithog. Mae popeth yn dod i'r rhai sy'n aros.

ELUNED WILLIAMS,
Pabell Rhif 143.

# Nid drwg lle gellir gwell

**Wel, 'ma fi o'r diwedd yn cael cyfle i ishte lawr a rhoi pin ar bapur, er fod 'da fi dipyn o wyneb yn gwneud hynny. Chi'n gweld, nid bardd odw i na sgrifennwr, ond gwas ffarm o Lanbed. Wel, cyrion Llanbed, ond Llanbed i bob pwrpas, gan fod pawb yn gwybod lle ma hwnnw. Cael rhyw chydig ddyddie oddiar y gwair, gan i mi gael cystal hwyl yn Steddfod Aberteifi. Ta beth, y *Dinesydd* odd isie clywed tipyn o hanes boi fel fi, ac mae'n debyg na faswn i wedi mentro o gwbl onibai am yr hyn weles i ddydd Llun.**

Cofiwch chi, dwi ddim yn un o'r bois politics ma, ond jiw, mae'n neis cael meddwl y gall dyn fyw a bod drwy'r Gymraeg am un wythnos mewn blwyddyn. Felly whare teg weda i i griw Cymdeithas yr Iaith a'th mewn i stondin y Rheilffyrdd Prydeinig a dysgu gwers go iawn i'r rheini. Wedi'r cwbwl, pwy ddiawl sy'n mynd i Steddfod i ddarllen arwyddion neu wybodaeth yn Saesneg? Beth sy'n anodd i'w ddeall odd nad odd trefnwyr y Steddfod heb orfodi'r cwmniau ma i gadw at y Gymraeg yn y lle cynta. A beth sy'n waeth byth odd yr hyn wedodd Alun Talfan Davies ar ol hyn i gyd — lladd ar y Gymdeithas am ei bod yn gwneud drwg i'r Steddfod, ond gwneud dim byd yn erbyn y Rheilffyrdd Prydeinig. Ro'n i wastod wedi meddwl ma Cymro odd y boi na.

Ond yr hyn nath y ngwylltio i fwya oedd wedi iddyn nhw resto'r Wayne Williams na. Criw mawr o fois y Gymdeithas yn ishte o flaen fan yr heddlu odd yn i gario fe mas, a miloedd o blismyn yn dod i'r golwg (Duw a wyr o lle daethon nhw) a hyrddio fel teirw mewn i ganol y bois. Y cynta weles i odd merch yn cael ei thowlu drwy'r awyr ac yn lando ar y llawr a'i hwyneb yn waed i gyd. A phan weles i'r wên ar wynebe'r heddlu dyma finne'n gwylltio ac yn mynd i ishte o flaen y fan fy hunan. Y peth nesa dwi'n cofio odd ffindo fy hunan rai llathenni o'r fan wedi cael fy nhowlu, a rhyw hanner dwsin o'r diawled uwch y mhen yn 'mwynhau' eu hunan. "We've all got our jobs to do," medde nhw ar ddiwedd y cwbwl wrth ryw bobl ganol oed oedd yn dadle â nhw. Y fath 'Job'! Beth bynnag cyn diwedd y diwrnod es i draw i babell Cymdeithas yr Iaith i ymaelodi. Erbyn hyn rwy'n sylwi ma Cymraeg yw iaith y stondinau bron i gyd. Pwy wedodd fod y Gymdeithas yn gwneud drwg i'r Steddfod?




# A oes dillad?

Wyddech chi fod un babell wedi gorfod cau yn ystod yr wythnos oherwydd diffyg cefnogaeth? Ond does neb yn malio dim!

I fod yn fanwl gywir, nid pabell ydy hi ond caban symudol, ac yno yr oedd tim o wragedd wedi gobeithio gweithio trwy'r wythnos, yn gofalu ar ôl wellingtons a chotiau a geriach Eisteddfodwyr. Ond gan nad oes fawr neb wedi dod i ofyn am gymorth, mae'r drws bellach, ynghlo! Ond mae'r eisteddfodwyr oedd yn gofalu am y babell wedi mynd i weithio i fan arall!

# A oes heddwch?

Un o'r bobl sy'n cael mwyaf o broblemau yn yr Eisteddfod hon yw Ysgrifennydd gweithgar Barddas. Gobeithiai gael timau o feirdd o bob rhan o Gymru yn ystod yr wythnos, fel y gellid diddanu'r Eisteddfodwyr yn ystod yr ymrysonau! Ond o hyd ac o hyd mae ei ffôn yn canu, a rhyw lais neu'i gilydd yn dweud, "Fydda'i ddim yn medru dod..."

Ie, yn wahanol i'r actorion, dyw'r beirdd i gyd ddim yn gyfarwydd â'r ymadrodd, "Rhaid i'r siew fynd rhagddi!"

Ond efallai eu bod i gyd yn Eisteddfod Adfer yn Arfon!


## CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

*Côr-feistr: Richard Elfyn Jones*

Fe gynhelir profion blynyddol i ddenu aelodau newydd ddechrau mis Medi.

Os oes gennych chi chwant ymuno cysylltwch â Rheolwr y côr.

Howard Goodfellow,
148, Westbourne Road,
Penarth.
Ffôn: 707827


# GORSEDDAU MALURIEDIG

**Wyddech chi nad yw gwaith yr Eisteddfod ddim yn dod i ben drwy'r dydd a'r nos? Yn union y bydd y cyngerdd wedi gorffen yn y pafiliwn, mae nifer o seiri gyda'u hoffer yn mynd yn araf o gwmpas y pafiliwn gan fanylu ar bob sedd ac atgyweirio pob un sy wedi gwegian o dan straen penolau'r dydd. Ac mae eu hangen, credwch fi. Fe synnech faint o seddau sy'n dioddef oherwydd sgriwmatics.**

# Dyddiau mewn dinas

**"Bob" oedd yn ail yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, ac awdur sy'n byw yng Nghaerdydd ydi Bob. Mae'n fardd, yn fardd enwog bellach hefyd. Rwy'n mawr obeithio y bydd yn cyhoeddi ei gyfrol cyn bo hir. Bydd yn gymar deilwng i un 'Y Dyn Dwad' — mae'n rhaid fod 'Goronwy Jones' yn dylanwadu ar lenorion ifanc ein gwlad. Gwyliad o, bydd ysgrif arno, "Ysgol y Dyn Dwad" cyn bo hir! O, ie, 'Bob' oedd Sion Eirian. Da ynte.**

# A oes A?

Wel, nag oes! Does dim "A" yng nghynllun llawr y Theatr Newydd, ond drwy ryw amryfusedd wyddai'r swyddogion tocynnau mo hynny. Ond, chwarae teg iddynt, maent wedi dehongli eu problem mewn ffordd wreiddiol! Mae pobl yr "A" wedi troi yn bobl y bocsus! Os gwelwch chi rai yn y bocsus pan fyddwch yn mwynhau cynhyrchion y Theatr Newydd, wedi cael eu gyrru i'r lloc eisteddfodol y maen nhw, am nad oes "A"!

# Eisteddfotwyr

Mae llawer o bethau'n mynd ymlaen yn yr Eisteddfod na wyr yr Eisteddfodwr cyffredin ddim byd amdanynt. Mae'r Dinesydd wedi sôn o'r blaen am yr holl fwyta sy'n digwydd yn ystod yr wythnos!

Ond mae'n rhaid i bawb fwyta, Madam Golygydd!

Wrth gwrs. Ond pwy sy'n trefnu'r holl fwyta swyddogol yma? Pe gwyddwn i hynny, fe allwn i holi, "Paham mai'r un cegau a welir yn cnoi ac yn sipian wrth bob bwrdd — llawer ohonyn nhw heb fod ar gyfyl yr Eisteddfod tra'r oedd yn paratoi yn ei anterth?

Mae'n rhaid gofalu am y cegau mawr, wrth gwrs — dim ond cofio fod y cegau mawr yn dibynnu ar y cegau bach. Gwcw!

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

**antiques** UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

POSTERI CERDDI

**Cynnig arbennig 3 am bris 2 cludiad am ddim**

**Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20" × 30". Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.**

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2 post free**

**Normally these full colour 20" × 30" posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.**

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

POEM POSTERS

Croeso i Gastell Caerdydd.

An invitation to dine at Cardiff Castle —



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrwch a cherddoriaeth traddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de musique et de gaieté.

Komt u eens een avond met traditionele gastvrijheid van Wales bijwonen. Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels.

For bookings: Telephone CARDIFF 372737

# MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
*******A.A.*      *******R.A.C.*

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU    PRIODASAU    CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI
unrhyw amser
Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod
3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus



**Taith Gymreig**
**Côr Gwladwriaeth**
**Hwngari**
(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdâr, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach, Porthcawl, Castell Nedd, Treorci, Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr, Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn, Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

# Cymdeithas Adeiladu Nationwide
# Dyma'r Gymdeithas i bara am oes

## Bwrdd Rhanbarthol Cymru

Cadeirydd: Syr Harry Llewellyn CBE
Ardalydd Môn DL FSA Hon FRIBA FR HistS;
Syr Hugo Boothby Bt DL YH
Alex Gordon CBE PPRIBA LLD; T Mervyn Jones CBE MA

## Rheolwr Dros Gymru

Huw Lloyd Williams

## Swyddfeydd

Caerdydd
Casnewydd
Cwmbran
Penarth
Y Barri
Penybont Ar Ogwr
Pontypridd
Abertawe
Castell Nedd
Llanelli
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Wrecsam
Y Rhyl
Caerffili
Aberdar
Aberdaugleddau

**Nationwide**

## Y Gymdeithas Adeiladu am oes

Cronfeydd dros £3,000m.wedi ei awdurdodi fel buddsoddiad Ymddiriedaethol
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu

# GOLYGYDDOL

Bu'r fenter hon yn llwyddiant llawer mwy nag y beiddiem freuddwydio, a diolch i bawb ar faes Pentwyn a brynodd y papur a'i ddarllen, a ysgrifennodd atom, a hysbysebodd gyda ni, ac yn enwedig i'r rheini a aeth i'r drafferth o alw i mewn i'r babell i ddymuno'n dda i ni.

Diolch i'r llu o bobl a ddaeth a phytiau o newyddion yn llifo i mewn i'r babell drwy'r wythnos — ac i'n staff o ohebwyr ffyddlon a fu'n gweithio'n rheolaidd drwy'r wythnos. Diolch i'r caredigion a fu'n gwylio'r siop drwy'r wythnos er mwyn gadael i'r staff olygyddol fynd ymlaen â'u gwaith y tu ol i'r llenni, yn aelodau'r Pwyllgor ac yn gyfeillion da eraill. Diolch i'r argraffwyr a staff yr argraffdy am weithio oriau meithion tan oriau mân y bore i sicrhau fod y papur yn cael ei argraffu (ac yn fwy na hynny, yn cael ei argraffu a graen arno). Diolch i Uned Fideo *Gweld* o Flaenau Ffestiniog am wneud tap fideo o'r gwaith o gynhyrchu'r *Dinesydd Dyddiol*. Diolch i bobl y teledu a'r radio a phapurau newydd eraill am roi cryn dipyn o sylw i ni a sicrhau felly fod pobl yn gwybod am y papur. A diolch i'r Eisteddfod am eu ffydd yn y fenter, am babell rad ac am ddim ac am lawer o gymorth.

Gadawsom un grŵp yr hoffem ddiolch iddynt tan yr olaf un, am mai iddynt hwy hwyrach, y mae'r diolch mwyaf am lwyddiant masnachol y *Dinesydd Dyddiol* — sef, y gwerthwyr. Plant oedd y rhain, gan mwyaf (gydag abell eithriad anrhydeddus o oedolyn fel gŵr yr het fowler o Danysgrisiau), o ysgolion Gaerdydd a'r cylch (ac o rannau eraill o Gymru) a welodd neb erioed y fath weithwyr â'r rhain, allan yn gwerthu o fore gwyn tan nos. A mor hyfryd oedd clywed cri Gymraeg "Dineeeeesydd" yn boddi'r maes am newid. Diolch i bob un ohonynt.

Mae'r cam cyntaf wedi ei gymryd gyda'r fenter hon — dyletswydd rhywrai eraill yn awr yw derbyn yr her a sicrhau y bydd gan bob Eisteddfod Genedlaethol o hyn ymlaen bapur newydd Cymraeg yn ymddangos ar y maes bob dydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld pa hwyl fydd arni yn Eisteddfod Caernarfon (wel, at *weld* Eisteddfod Caernarfon, a dwed y gwir, gan na welsom ddim o Eisteddfod Caerdydd ond y tu fewn i furiau cynfas ein pabell!) a dymunwn yn dda iawn i bwy bynnag fydd yn ymgymryd â'r gwaith.

## Car Alun Evans?




*Sori, Alun ond fedrwn ni ddim peidio!*



I Owain Arwel: am nad yw'n fodlon siarad iaith ei fam, neges oddi wrth rai aelodau o Gôr yr Eisteddfod yn ei hoff iaith —
"Breathes there a man with soul so dead
That to himself he hath not said
This is my own, my native land."

## POBOL CWMDREWI

gan Barri Morgan a P.R.Penarth






*Tynnwyd y llun hwn am chwarter wedi naw fore dydd Llun!*

# Ciwio am Gaernarfon

Mae pethau'n argoeli'n dda am Steddfod Caernarfon 1979. Eisoes daeth £26,000 i law (i'w gymharu â £22'000 yng Nghaerdydd yr amser yma llynedd) ac y mae torfeydd wedi bod ffurfio y tu allan i babell Steddfod Caernarfon ar y maes i brynu tocynnau ac archebu llety eisoes. Gwerthwyd 500 tocyn wythnos erbyn ddoe a 500 o'r Rhestr Testunau ar y maes; derbyniwyd rhwng 200 a 250 o ymholiadau am lety.

Y mae record y Steddfod, "Canu Caernarfon", ar werth yn y babell ac yn gwerthu'n wych. (Dyma'r record y cyfeiriwyd ati mewn erthygl yn rhifyn dydd Iau fel "dim ond ail record gwbl Gymraeg" cwmni Recordiau Sain — record *ddwbl* ddylai hynny fod wedi bod, wrth gwrs, a'n ymddiheuriadau i Sain am hyn! GOL.

# Streic Sgwennu

**Bu bron i Gymru golli un o'i hawduron ifanc mwyaf addawol ddydd Mercher. Roedd Meg Elis (awdur *I'r Gad* a *Carchar*, a nofel newydd y cyhoeddwyd darnau ohoni yn y cylchgrawn *Pais*) wedi cystadlu ar y Fedal Ryddiaith. Doedd ganddi hi ddim gobeithion mawr, meddai hi, ond roedd hi'n meddwl cael beirniadaeth ar ei gwaith, o leiaf. Ond, er ei siom, ni chyfeiriwyd at ei ymgais hi (o dan y ffugenw Dafydd) o gwbl yn y feirniadaeth ar y gystadleuaeth yn y Babell Len.**

**Isel iawn ei hysbryd oedd Meg felly, ddydd Mercher, yn meddwl "Be 'di'r pwynt? Mae'n amlwg na fedra'i ddim sgwennu wedi'r cwbl..." (seiniau ffiolin yn y cefndir). O'r diwedd, ar fin penderfynu rhoi'r gorau i ysgrifennu am byth, dyma weld copi o'r Cyfansoddiadau. Dim son am *Dafydd* o gwbl, a Meg yn decharu amau nad oedd yr ymgais wedi cyrraedd yn y lle cyntaf. Yn sydyn, dyma ddarllen crynodeb o'i stori hi a beirniadaeth ddigon deg arni — ond o dan y ffug-enw *Hawcyn 2*! Cododd hyn dipyn ar ei chalon; fe fydd hi'n dal i ysgrifennu er ei bod hi'n teimlo'n "uffernol o flin".**




*Os fedrwch chi ddeall hwn (yn Mhabell Fwyd y Swyddogion), rydddech chi'n haeddu pryd o fwyd am ddim!*

**CWYN MOI (wedi'r stori am Tito's ddoe)**

**Hoeden nos yw "Dinesydd" — hyd y wawr**
**Daw hon ar fy nhrywydd,**
**Nid wy'n dew, rwy'n ddyn newydd**
**Er f'erlyn ar derfyn dydd.**

**MOI**



# Hysbysebion Personol

MER: Plis ga i ychydig mwy na lemoned i freewast? — Ifor
BETHAN SIAN: Awst 12fed. Penblwydd hapus i ni H.M.T.
MAM: Dyna i chi bowld - cyfarch eich hunan! Ta beth! Penblwydd Hapus. Y Mab.
JOHN: Pam wyt ti mor "boring"?
YN EISIAU: Un person i rannu tŷ cymysg yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Ffôn: 613697.
MAE DOTI TOMOS, Tom Enwog Caerdydd' yn fyw ac yn iach ac yn canu grwndi draw yn Gorseinon.
SEL: Lle ddiawl mae'r hufen ia? Jaffeth
YN EISIAU: Lifft i Fae Colwyn neu'r cyffiniau Dydd Sul. Ffoniwch Caerdydd 564540, neu galwch ym Mhabell y *Dinesydd* ar y maes.

DILYS WALTERS: Llongyfarchiadau ar basio dy brawf gyrru ddydd Iau.
COFIWCH am oedfaon y Tabernacl ddydd Sul, am 11.00am a 5.00pm.
YN EISIAU — Yn Llundain, Myfyriwr graddedig yn chwilio am ystafell sengl mewn fflat ac ati yng nghyffiniau Bloomsbury (Russel Square), ar gyfer mis Hydref 1978. Cysyllter â Michael Prosser yn stondin Cwm Rhymni (neu ffôn Rhiwderyn 3376).

# Ti isho Bett?

Ni chlywyd yr un gair o edifeirwch o gyfeiriad y *Western Mail* am ddatgelu na fyddai cadeirio ddydd Iau ymlaen llaw - yn wir, eu hagwedd yw y gwnant yr un peth y flwyddyn nesaf yng Nghaernarfon os cant y cyfle. Felly, gair o rybudd amserol i bawb fydd yn ymwneud a'r cystadlaethau mawr yng Nghaernarfon byddwch wyliadwrus! Mae 'na glustiau'n gwrando rownd i bob cornel.

**AR WERTH NEU AR OSOD**

Siop Melysion a 'Baco
yn Nyffryn Conwy
Ymholiadau -
Golygydd y Dinesydd

**CADWYN**

Dewch i'r babell ar y maes(wedi 'i chuddio rhwng Tai Gwynedd a'r Babell Gwyddoniaeth.

*Cannoedd o feltiau - wedi'u torri i'ch maint.
*Cloesiau ysgafn
*Blancedi o wlan pur, meddal newydd
*Ffasiynau newydd oddi wrth Ceredig, Melin Siwan ag Antur Aelhaean
*Anrhegion o ddeg ceiniog i fyny.
*Recordiau am hanner can ceiniog yr un - i'w clirio.

**Cyfle hefyd i fuddsoddi yng ngwaith y cwmni. 9% llog p.a.**

## GWASANAETH ARBENNIG EISTEDDFOD



CAEAU LLANDÂF — PENTWYN

Caeau Llandâf, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Stryd y Castell, Heol Greyfriars, Heol Casnewydd, Heol Waterloo, Rhodfa Colchester, Heol Cyncoed, Heol Gwern Rhuddi, Heol Pentwyn, Pentwyn.

**DYDD LLUN 7 — Dydd Sadwrn 12 Awst**

CAEAU LLANDÂF — PENTWYN (Rwt 51)

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf . . . . . | 0830 | 0842 | 0854 | .... | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | 0954 | 1004 | 1014 | .... | .... | 1044 | .... |
| Heol y Castell . . . . . | 0840 | 0852 | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | .... | 0954 | 1004 | 1014 | 1024 | .... | .... | 1054 | .... |
| Heol Penylan . . . . . . | 0858 | 0910 | 0922 | 0927 | 0932 | 0937 | 0942 | 0947 | 0952 | 0957 | 1002 | 1007 | 1012 | 1022 | 1032 | 1042 | 1055 | 1102 | 1112 | 1122 |
| Pentwyn . . . . . . . . | 0912 | 0924 | 0936 | 0941 | 0946 | 0951 | 0956 | 1001 | 1006 | 1011 | 1016 | 1021 | 1026 | 1036 | 1046 | 1056 | 1109 | 1116 | 1126 | 1136 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf . . . . . | .... | 1114 | .... | .... | 1144 | .... | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1444 | 1514 | .... | .... | .... |
| Heol y Castell . . . . . | .... | 1124 | .... | .... | 1154 | .... | 1224 | 1239 | 1254 | 1309 | 1324 | 1339 | 1354 | 1409 | 1424 | 1454 | 1524 | .... | .... | .... |
| Heol Penylan . . . . . | 1132 | 1142 | 1152 | 1202 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | 1427 | 1442 | 1512 | 1542 | 1552 | 1602 | 1612 |
| Pentwyn . . . . . . . . . | 1146 | 1156 | 1206 | 1216 | 1226 | 1241 | 1256 | 1311 | 1326 | 1341 | 1356 | 1411 | 1426 | 1441 | 1456 | 1526 | 1556 | 1606 | 1616 | 1626 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf . . . . . | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | .... | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 |
| Heol y Castell . . . . . . | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 | .... | 1834 |
| Heol Penylan . . . . . . | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1827 | 1832 | 1837 | 1842 | 1847 | 1852 |
| Pentwyn . . . . . . . . | 1746 | 1756 | 1806 | 1816 | 1826 | 1836 | 1841 | 1846 | 1851 | 1856 | 1901 | 1906 |

PENTWYN — CAEAU LLANDÂF

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn . . . . . . . . | 0958 | 1028 | 1058 | 1128 | 1143 | 1158 | 1213 | 1228 | 1243 | 1258 | 1313 | 1328 | 1343 | 1358 | 1413 | 1428 | 1443 | 1458 | 1528 | 1558 |
| Heol Penylan . . . . . . | 1014 | 1044 | 1114 | 1144 | 1159 | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1429 | 1444 | 1459 | 1514 | 1544 | 1614 |
| Heol y Castell . . . . . . | 1032 | 1102 | 1132 | 1202 | 1217 | 1232 | 1247 | 1302 | 1317 | 1332 | 1347 | 1402 | 1417 | 1432 | 1447 | 1502 | 1517 | 1532 | 1602 | 1632 |
| Caeau Llandâf . . . . . . | 1042 | 1112 | 1142 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | .... | 1442 | .... | 1512 | .... | 1542 | 1612 | 1642 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn . . . . . . . . . . | 1608 | 1618 | 1628 | 1638 | 1648 | 1658 | 1708 | 1718 | 1728 | 1738 | 1748 | 1758 | 1808 |
| Heol Penylan . . . . . . . | 1624 | 1634 | 1644 | 1654 | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | 1814 | 1824 |
| Heol y Castell . . . . . . | 1642 | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 |
| Caeau Llandâf . . . . . . . | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 | .... |

*Bydd bysiau arbennig yn gadael Pentwyn am Gaeau Llandâf ar ôl y cyngherddau yn y Pafiliwn bob nos.*


# Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg

*GWASANAETH I GYMRU*

**Cynhyrchu Ffilmiau**
**Dosbarthu Ffilmiau**
**Y Sinema Deithiol**
**Cyfathrebu Cymdeithasol (GWELD)**
**Cefnogi talentau newydd**
**Cyfleusterau cynhyrchu annibynnol**

*Ysgrifennwch am fanylion i'r:*
*Bwrdd Ffilmiau Cymraeg,*
*Ffordd y Coleg,*
*Bangor.*
*Ffôn: (0248) 4687.*


Theatr yr Ymylon
yn
Y Pembroke Terrace
Churchill Way, Cardiff
Rhydwen Williams fel Daniel Owen
yn darllen
"HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"
Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.
Tocynnau £1.00. Plant 50c.
Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ..............................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ..................................................

..........................................................................

..........................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.

UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

Hwyrach ein bod ni wedi gorfod talu pris ein "hamaturiaeth" drwy gael ein trin yn llai ffafriol gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith na phapurau newydd eraill o ran cyfleusterau'r Wasg (er bod ein Prif Ohebydd, Gwynn Tudno, wedi manteisio i'r llawn ar y "Cyfleusterau" arbennig i'r Wasg yn y Pafiliwn, fel yr adroddwyd yn y *Dinesydd Dyddiol* ddoe!).

Er taer erfyn am gyflenwad o docynnau i'r Wasg er mwyn i'n holl ohebwyr a ffotograffwyr (rhyw bymtheg ohonynt i gyd) gael mynediad i bob man yr oedd angen iddynt fynd er mwyn casglu newyddion yn effeithiol, ni chawsom ond pum bathodyn ac aeth hi'n draed moch yn reit aml wrth i ryw ddeg o bobl ar y tro ymladd am un neu ddau o fathodynnau.

Siom i ni felly oedd deall fod yr Ysgrifennydd wedi caniatáu ugain o docynnau i'r Wasg i bapur cenedlaethol go adnabyddus nad yw'n enwog am ei gymwynasau i'r Eisteddfod, er nad oedd gan y papur hwnnw ddim mwy na phump o ohebwyr ar y maes ar y mwyaf. Clywsom son mai'r rheswm am y cais anarferol o fawr hwn oedd i sicrhau mynediad am ddim i'r maes i wragedd gohebwyr hefyd.

Drwg gennym orffen yr wythnos drwy gwyno, a hynny ar ôl derbyn llawer cymwynas arall gan y 'Steddfod — ond teimlawn ei bod yn bwysig nodi hyn er mwyn sicrhau tegwch i bwy bynnag a fydd yn ymgymryd â'r gwaith o gynhyrchu papur dyddiol Cymraeg yn 'Steddfod Caernarfon — gan gymryd yn ganiataol erbyn hyn bod hynny'n mynd i ddigwydd!

# Gwin mêl Cadwyn yn ddeifiol

Cymerodd ein Golygydd eofn ran mewn arbrawf gwyddonol cyffrous brynhawn ddoe i brofi fod diod feddwol yn cael ei werthu ar faes yr Eisteddfod. Gadawodd y profiad hi'n wan a sigledig, ac wrth iddi hi faglu ei ffordd o gwmpas y maes, roedd peth amheuaeth parthed a fyddai *Dinesydd Dyddiol* heddiw yn ymddangos.

Bu Medwen yn arbrofi gyda'r Alcomedr, dyfais Dr. Tom Jones o Gaerdydd sydd yn mesur yn gywirach nag erioed lefel yr alcohol yn y gwaed. Er mwyn gallu arbrofi, rhaid oedd yfed rhywbeth i arbrofi gydag ef, a dyma brynu potel o "Win Mêl" o stondin *Cadwyn*.

Er mawr syndod i bawb, dangosai'r Alcomedr ddarlleniad o 130 ar ôl i Medwen yfed gwydraid o'r gwin (80 mm. yw'r lefel swyddogol a ganiateir yn y gwaed os yw person yn gyrru). Rhaid cyfaddef serch hynny fod y lefel wedi disgyn i 30 hanner awr yn ddiweddarach, er na fyddai dyn wedi credu hynny o weld y fath stad oedd ar ein Gol.

Ni ellir yn awr ond gobeithio na fydd cyhoeddi'r adroddiad hwn yn peri i ragor o bobl geisio lladrata poteli gwin o stondin Cadwyn, fel a ddigwyddodd y diwrnod o'r blaen (gweler Cartŵn *Dinesydd Dyddiol* echdoe. Ynsicr, mae hyn yn profi eu bod yn werth eu dwyn, o leiaf!



Dyma lun arall o Medwen. Drwy ryw gamgymeriad ymddangosodd llun ohoni hi gydag erthygl ar Huw Meredith, boi balŵns yr Urdd. Sori Huw — dyma dy lun di o'r diwedd.



AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION
YNG

NGHANOLFAN
OEDOLION
YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034

Gorseddwch yr iaith
mewn cyngor a chyfarfod
gyda
CHYFARPAR CYFIEITHU

**ADLAIS**

Unedau symudol hylaw am £325 i fynny
Hefyd gyfarpar wedi ei osod yn sefydlog

Manylion pellach gan:
Hywel Wyn Jones,
Carreg Cennen, Dolan
Bow Street, Dyfed

(Ffôn: 0970-87-573)

**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

CANTORION ARDWYN AR DAITH
Sain (1123D)
CÔR MEIBION Y MOELWYN
Sain (1121D)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**
**DEWCH HEIBIO!**

sain

Wedi hwyl y Genedlaethol cawn edrych ymlaen at

**EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN**

Tachwedd 17 ac 18

Rhestr Testunau ym mhabell Tŷ ar y Graig, Cartref Bontnewydd, Cymdeithas Cerdd Dant neu Hwyl, pris 6ch, neu anfoner amlen stamp at yr:
Ysgrifennydd Cyffredinol,
Emlyn Jones,

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD**
**AWST 7-12, 1978**
**CYNGHORAU CYHOEDDUS**

Annwyl Olygydd,

Cydnabuwyd cyfraniadau tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn Rhaglen Swyddogol yr Eisteddfod hyd at Orffenaf 17, 1978.

Ar ran ein Pwyllgor Gwaith, buaswn yn dra diolchgar i chwi am gynnwys y cyfraniadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad uchod.

CYNGHORAU DOSBARTH
£250
Ynys Môn
£185
Preseli
£100
Colwyn
£60
Rhuddlan
£10
Monmouth

CYNGHORAU TREFOL
£100
Abergwaun a'r Goedwig
£100
Yr Wyddgrug
£50
Caerfyrddin
£15
Caerwys

CYNGHORAU CYMUNED
£40
Vaenor
£25
Llannon
£25
Pendine
£10
Glyntraian
£10
Lampeter Velfrey
£10
Llanaelhaearn
£10
Llangoedmore
£10
Ysguborycoed
£7
Llanfair D.C.
£5
Betws Garmon
£5
Llandudoch
£5
Llangenny
£5
Llanpumpsaint
£3
Llanfyrnach
£2
Tregoyd a Velindre

DIWYDIANT, MASNACH A THAI BUSNESS
£51-00
Trust House Forte Hotels Cyf.
£50-00
Ceka Works Cyf.
G. Percy Trentham Cyf.
£30
British Home Stores Cyf.
£25-00
Cleglen Publishing Cyf.
£20-00
Siambr Masnach a Diwydiant Caerdydd
£10-00
G.M. Bryant (Bridgend)
Harlands of Hull Cyf.
£5-00
Peter Davies Stores Cyf., Eglwysnewydd.

CYMDEITHASAU
£500-00
Cymdeithas Morgannwg Llundain
£323-90
O.Constantinou a'i Feibion
£250
Provincial Grandlodge of Wales Eastern Division
£110
Elw Sherry Reception yn Neuadd y Pentre Langstone
£100
Cymdeithas Dewi Sant, Hong Kong
£91-50
Coleg Gwyddor Cartref Llandaf
£75
Moores Family Charity Foundation.
£70-00
Cynulleidfa Gymraeg Croes-y-Parc, Llanbedr-Fro
£52-15
Merched y Wawr,Cangen Gwent
£50-00
Cymry'r Wenallt
Merched y Wawr Dwyrain Morgannwg (Gwerthiant llyfau)
£40-00
Cymdeithas Hanes Dinas Powis
£25
United World College of the Atlantic Ltd.,St Donats
£23
W.R.V.S. Afternoon Club, Dinas Powis
£10-00
Llantwit Major Round Table
£8-00
Cymdeithas Gymraeg Durham
£7-00
Dinas Powys Women's Institute
£5-00
The Vale Wine Making Circle

EGLWYSI
£114-50
Minny Street, Caerdydd (Ail Gyfraniad)
£100
Ebeneser, Caerdydd
£50-00
Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth
£37-00
Cymdeithas Eglwys Dewi Sant, Caerdydd
£5-00
Eglwys y Plwyf Sain Nicholas (Ail Gyfraniad)

YSGOLION
£450
Grwp yr Urdd Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
£351-42
Ysgol y Babanod Llanishen Fach
£30-00
Plant Ysgol Uwchradd Willows, Tremorfa
£16-35
Ysgol Gyfun Bryn Celynnog Beddau
£7.26
Ysgol Heol y Celyn a Garddwest, Rhydfelen

UNIGOLION
£100-00
Dr M Feichtinger
Syr Leslie Joseph
£50-00
Mr a Mrs T W Thomas
£25-00
Mrs G L Birch
Y Barnwr Hywel ap Robert
Syr Melvin Rosser
£22-00
Mr Chris Coles
£15-00
Iolo a Vera Griffith
David a Heulwen Thomas, (Ail-Gyfraniad) - Bore Coffi
£10-00
Mr John Brace
Y Fonesig E M Edwards
Principal a Mrs M I Harries, Coleg Caerleon
Mr a Mrs J Leslie Jones
Mr a Mrs J R Jones, Rhiwbeina
Y Gwir Barchedig C J Richards, Esgob Llandaf
Mr a Mrs Ben Owens, Aberystwyth
Mr a Mrs J M Thomas
Miss Catherine Lloyd Griffith
£8-00
Mrs J Lloyd Griffith
£5-00
Mrs Joyce Atriel
Mr a Mrs Illtyd David
Mrs Llinos Davies
Mr Ryland Davies
Mr Alun Edwards, Casnewydd
Mr a Mrs Bernard Gaccom, Rhiwbeina
Mr a Mrs Alun George, Sir Benfro
Mr L T Green
Mrs Megan Griffiths
Mr Tom Hughes, Caerffili
Mrs N H Mason
Mr P S McMullen
Capt. Dilwyn Miles
Dr T E Parry
Mrs Peggy Price, Llampha
Mr S H Scourfield, Caerffili
Miss J Thomas
Mr Sion Thomas
Miss Eira Williams
Tanysgrifiadau dan £5-00: £10-00

CYMUNED: PLASNEWYDD
£10-00
Y Prifathro a Mrs Davies, Coleg y Bedyddwyr, Richmond Road
Lynn Owen
£6-00
Mrs D M Whitney
£5-00
Bowen George
Mr a Mrs J P Lloyd
Teuluoedd Hillier a King

| | |
|---|---|
| | £41-00 |
| Tanysgrifiadau dan £5-00 | £181-88 |
| CYFANSWM | £222-88 |

CYMUNED: CROCKERBTOWN
£25
Y Diweddar Dr Davies, Westgate Street.
Mr Henri a Mrs Norma Davies
£5-00
Dienw
Dienw

| | |
|---|---|
| | £60-00 |
| Tanysgrifiadau dan £5 | £61-83 |
| Cyfanswm | £121-83 |

Y PWYLLGOR APÊL LLEOL
Culverhouse Cross, Sain Ffagan a Gwenfo: Siop Ail Law £5-00
Tyllgoed: Gweithgareddau £470-54

PWYLLGOR APÊL CWM RHONDDA
£168-60
Eglwysi
Cymdeithasau
£50-00
Côr Meibion Treorchy
£30-00Y Gloran
£5-00
Ton & Pentre Labour Club
Diwydiant
£5-00
Apollo Leather Products Cyf.
Unigolion
£37-40
D C Davies
£17-50
Ivor Evans
£15
D J Davies
£9-00
B E Davies
£7-00
W Llewellyn
£7-00
J I Price
Tanysgrifiadau dan £5 £8-00

Mawr ddiolch i chwi am eich cydweithrediad ar hyd y ddwy flynedd aeth heibio a derbyniwch fy llongyfarchion mwyaf diffuant ar eich llwyddiant eithriadol yr wythnos hon.

Gyda phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yn gywir iawn

J IDRIS EVANS
TREFNYDD

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.

# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?

A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*

**CRASBOETH o'r LOLFA!!**




**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**




**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**
Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

---

CYMDEITHAS
# TAI GWYNEDD

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

---

Croeso i babell
## Cymorth Cristnogol
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd lluniau o gynlluniau â gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

---

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

---

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw

Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

---

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherddorfaol), a chyfeiliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Teleray rhesymol.
Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

---

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o
offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795

---



**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

---

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**



# CYMRY AR WASGAR

Yr olaf yn ein cyfres am Gymry sydd naill ai wedi dewis neu wedi gorfod mynd dros Glawdd Offa i fyw, a'u hymateb i hynny yw Dr. Gwenllian Awbery. Ar ol mynd i'r Brifysgol yn Rhydychen, bu'n darlithio ym Mhrifysgol Leeds o 1969-75 cyn dychwelyd i Gymru yn isgeidwad yn Adran Tafodieithoedd yr Amgueddfa Werin ym 1975.

**Dair blynedd ar ôl dychwelyd i Gymru mae'n brofiad diddorol ceisio cloriannu'r effaith o fyw yn Lloegr am dros ddeng mlynedd. Mae hyn yn anodd am fod yna batrwm disgwyliedig o ymateb mewn sefyllfa debyg — hiraeth am Gymru ar ran yr alltud a llawenydd wrth ddod yn ôl dros Glawdd Offa. Ond buddiol efallai yw ceisio pwyso a mesur yn onest.**

Dyma'r ffeithiau yn fras. Symud i Lundain yn y lle cyntaf oherwydd gofynion gwaith fy nhad, yna mynd i Brifysgol Caergrawnt, ac ar ôl graddio a blwyddyn o waith ymchwil mynd i Leeds i weithio. Cefais fy argyhoeddi o ragoriaethau Caergrawnt a dewis mynd yno, ond 'roeddwn wedi gobeithio cael swydd yng Nghymru wedyn. Yn y diwedd 'roedd y cynnig o Leeds yn well, a minnau'n teimlo oherwydd amgylchiadau personol — marwolaeth sydyn fy nhad — fod yn rhaid i mi gymryd swydd barhaol a'm gwnai yn hunangynhaliol. Bûm yno am chwe blynedd cyn dod yn ôl i Gaerdydd.

Nid oes gennyf wreiddiau mewn milltir sgwâr yn y Fro Gymraeg Fe'm ganwyd yn Y Barri, ac nes i mi symud i Lundain yn ardaloedd seisnigaidd Y Barri a Wrecsam y bûm yn byw. Ond er hyn yr oeddwn yn ymbwybodol iawn o'm Cymreictod, i raddau helaeth oherwydd dylanwad Ysgol Gymraeg y Barri. Mae fy nyled yn fawr i'r ysgol yn hyn o beth. Felly newid sylfaenol oedd mynd i Lundain.

Wrth feddwl gwelaf fod fy agwedd wedi newid yn ystod y blynyddoedd yn Lloegr. Yng Nghaergrawnt 'roedd arnaf rywfaint o gywilydd o fod yno yn lle bod mewn coleg yng Nghymru ac 'roeddwn yn dal i ystyried byw yn Lloegr fel rhywbeth dros dro. Euthum ati i greu Cymru fach bersonol i mi fy hun drwy gymdeithasu â myfyrwyr eraill o Gymry a thrwy weithgareddau Cymdeithas y Mabinogi.

Ond ar ôl symud i Leeds bu rhaid i mi dderbyn y ffaith na fyddai dychwelyd i Gymru yn bosib am rai blynyddoedd o leiaf, a bod yn rhaid i mi ymgartrefu yno yn weddol sefydlog. Prin iawn ar ôl hyn oedd fy nghysylltiadau â grwpiau o Gymru alltud. 'Roeddwn yn dal i ddod yn ôl i Gymru ar wyliau, i ddarllen Cymraeg yn helaeth, i ymuno â mudiadau yng Nghymru — yr oedd dod yn aelod o'r Orsedd yn symbol o hyn — ac yn wir i fwrw ymlaen â gwaith ymchwil ar yr iaith Gymraeg. Ond yn Leeds ei hun fe drois i ymuno â grwpiau lleol i drafod a hybu materion lleol. Credwn y dylwn gyfrannu i fywyd y ddinas lle 'roeddwn yn byw yn hytrach nag aros o'r neilltu.



O'r diwedd daeth y cyfle i ddychwelyd i Gaerdydd i weithio, a dyma fi yn fy ôl yn hapus iawn fy myd. Ac efallai fy mod yn gwerthfawrogi rhai pethau yn fwy ar ôl bod i ffwrdd. Siarad Cymraeg yn naturiol wrth fy ngwaith; medru taro i mewn i siop ar fympwy a phrynu llyfr Cymraeg yn lle gorfod aros tan y gwyliau; rhannu syniadau a phrofiadau a phobl o gefndir tebyg i mi. Ond eto charwn i ddim greu'r argraff fod fy amser yn Lloegr wedi bod yn ddiflas. Bûm yn hapus iawn yno ac 'rwyf yn mawr obeithio y bydd fy nghyfeillgarwch â'm ffrindiau yno yn parhau.

Mewn gwirionedd 'rwyf yn dal i fyw rhwng dau fyd fel petai. Sais yw fy ngŵr (er ei fod yn siarad Cymraeg). Yn Swydd Efrog y mae ei deulu ac mae ef yn gweithio yn Llundain. Ac mae gennyf innau gystylltiadau proffesiynol cryf â chydweithwyr yn Lloegr o hyd.

Beth felly yw effaith treulio'r blynyddoedd pwysig hyn — dyddiau coleg a swydd gyntaf — yn Lloegr? Ar lefel bersonol, nid wyf yn rhan o rwydwaith cyfeillion yma yng Nghymru. Mae fy ffrindiau i yn wasgaredig. Mae'r effaith i'w gweld hefyd ym myd syniadau. Nid yr un dylanwadau sydd wedi bod fwyaf arwyddocaol yn fy mhrofiad i â phrofiad pobl eraill yr un oed â mi yma. Mudiad Iawnderau Merched yn hytrach na Chymdeithas yr Iaith a'm harweiniodd i syniadau a gweithgareddau newydd.

Ac mae fy mherspectif ar broblemau Cymru — megis diboblogi, diweithdra ac anwybyddu diwylliant a thraddodiad — wedi newid. Ar ôl gweld yr un problemau yn codi mewn gwahanol rannau o Loegr ni allaf gredu eu bod yn gyfyngedig i Gymru. I mi maent yn nodweddiadol o'r berthynas rhwng y gymdeithas leol a llywodraeth ganolog yn gyffredinol, a'r un yw'r ymgyrch dros hawliau'r unigolyn a'r gymdeithas ym mhob man.

Hwyrach felly mai sefyll ychydig y tu allan i wead clos y byd Cymraeg a Chymreig a wnaf, ond gan obeithio y bydd gennyf ryw gyfraniad i wneud sydd yn deillio o'r profiadau a'r perspectif sydd wedi dod i'm rhan.

GWENLLIAN AWBERY

## RHAGLEN HEDDIW...
## ...A HENO

| | |
|---|---|
| **Y PAFILIWN** | 9.00 Grŵp canu ysgafn (dan 25)<br>11.15 Corau Meibion (ac am 12.40)<br>12.00 Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn (adrodd dros 18)<br>2.55 Araith Llywydd y Dydd: EMYR CURRIE JONES<br>3.20 Cystadleuaeth Arwain Côr<br>4.00 Côr Gwledig |
| **Y BABELL LÊN** | 11.00 Llwyfan y Llenorion Ifanc.<br>12.30 Cyfarfod Cyhoeddus Cym. yr Iaith |
| **Y THEATR FACH** | 11.00 Cloriannu'r Wythnos |
| **Y STIWDIO GERDD** | 10.30 Trafodaeth ar gyngerdd dydd Gwener<br>12.00 Gweithdy Telyn<br>2.00 Karl Orff |
| **PABELL Y DYSGWYR** | 12.30 Sesiwn o Ganu |

| | |
|---|---|
| **Y SHERMAN 7.30** | NOS YSTWYLL<br>Cwmni'r Eisteddfod |
| **YR ARENA (Sherman) 7.15** | PIPPI HOSAN HIR<br>Theatr Caricature. |
| **10.30** | NEB YN DEILWNG<br>Rifiw Aelwyd Canolfan yr Urdd, Caerdydd. |
| **Y THEATR NEWYDD 7.30** | CYFLWYNO CAERDYDD<br>Pasiant gan blant ysgol Bryntâf. |
| **Y PAFILIWN 7.30** | Parhau'r Eisteddfod<br>Corau Meibion |
| **TITO'S 10.30** | Bara Caws<br>HANES LLENYDDIAETH GYMRAEG<br>550 — 621 A.D. |
| **CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY** | HUNANGOFIANT RHYS LEWIS. Theatr yr Ymylon<br>7.45. |

# DYFODOL Y CÔR
## gan yr Arweinydd
## Alun Guy

**Wrth i lwch y Côr ddisgyn ar ddiwedd Cymanfa Nos Sul fe gyfyd Ffenics gorawl newydd allan o'r fflamau. Mae nifer helaeth o aelodau'r Côr yn anfodlon i adael i'w cysylltiad byrhoedlog derfynnu.**

Fe bwyswyd arnaf i chwistrellu mwy o anadl einioes cerddorol i mewn i wythiennau corawl cantorion Caerdydd. Rhaid cyfaddef fod calon y Côr yn curo'n gref a'r adrenalin gerddorol reddfol yn llifo'n rhwydd.

Ar nos Fawrth, Medi 12 fed byddaf yn cyfarfod â'r cantorion yn neuadd Coleg y Brifysgol, Heol Corbett am 8.00 o'r gloch. Pwysleisiaf fod y gwahoddiad yma yn agored i gantorion Caerdydd a'r cylch yn ogystal ag i Gôr yr Eisteddfod — tenoriaid yn enwedig.

Fy mwriad ydy gwneud gwaith mawr poblogaidd. Byddwn yn cyfarfod unwaith yr wythnos — ar nos Fawrth — ni fydd hyn yn ymyrryd gyda gwaith corawl capeli ac Eglwysi Caerdydd ar y Sul.

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i'm cyd-weithwyr, Eilonwy Jenkins, Nia Wyn Williams a Ron Lindsay a eu cymorth dros y ddwy flynedd; y diolch pennaf i'r cantorion wrth gwrs. Roedd yn fraint imi fod yn arweinydd arnynt. Maent wedi llwyr wireddu 'r addewid y soniais amdani fisoedd yn ôl, a theimlaf yn ddigon esmwyth a hyderus wrth gael fy nghor fy hun fel cefn i'r Gymanfa nos fory.

# Nantlle'n Fêl
## medd Tai Gwenydd

**Mae Cymdeithas Tai Gwynedd, y gymdeithas sy'n prynu ac adnewyddu tai yng Ngwynedd i'w gosod i bobl leol, wedi cyhoeddi yr wythnos hon eu bod yn canolbwyntio ar achub pentre Nantlle. Gwneir y cyhoeddiad yn y rhifyn newydd o 'Lais Tai Gwynedd' sydd ar werth ym mhabell y Gymdeithas ar y maes.**



*Tryfan (ar y chwith) ac un o'r ddau dy arall y bwriada Cymdeithas Tai Gwynedd eu prynu.*

Y rheswm dros ddewis Nantlle yw fod ysgol y pentref o dan fygythiad i'w chau. Dim ond 22 o blant sy'n sier o fynd i'r ysgol fis Medi nesaf, ond erbyn diwedd y flwyddyn, bydd Cymdeithas Tai Gwynedd wedi gosod pedwar tŷ i deuluoedd ifainc. 'Ein gobaith' meddai Dr. Bruce Griffiths,

Cadeirydd y Gymdeithas yw gosod y tai hyn i deuluoedd gyda phlant mewn oed ysgol, ac eisioes mae gennym geisiadau gan deuluoedd o'r fath mewn llaw ar gyfer y tai. Sefydlwyd Tai Gwynedd yn benodol i ail fywhau pentrefi bychain, ac yr ydym yn falch o gael y cyfle hwn i ddod i'r adwy yn Nantlle'.

Cyhoeddwyd hefyd fod chwaer-gymdeithas i Dai Gwynedd, sef Cymdeithas Tai Eryri wedi ei sefydlu. Yr Ysgrifenydd yw Norman Williams, Waunfawr - Golygydd cyntaf Y DINESYDD gyda llaw. Bydd Tai Eryri yn cael ei chyllid gan y Gorfforaeth letya, yn wahanol i Dai Gwynedd, ond yr un fydd ei nod, sef canolbwyntio ar adnewyddu tai ym mhentrefi Gwynedd. Oherwydd argyfwng Nantlle, mae Tai Eryri hithau yn bwriadu dechrau ei gwaith ar dri tŷ yn y pentref.

Dywedodd Dafydd Iwan, trefnydd Tai Gwynedd, fod y Gymdeithas wedi cael wythnos dda ar faes yr Eisteddfod. "Rydym yn ddiolchgar am bob cymorth a gawsom gan bobl y brifddinas - ond wrth gwrs, mae digon o le eto i roddion a buddsoddiadau. Wedi'r cyfan, mae cyflogau Caerdydd yn dipyn uwch na chyflogau pentrefi cefn gwlad Gwynedd!

### DEISEB YNYS ENLLI

Mae'r naturiaethwyr bondigrybwyll yna wedi mynd nôl ar eu gair parthed agor Enlli i ymwelwyr cyffredin o Gymry, ac mae angen cymaint o gefnogaeth ag sydd bosibl ar y rhai megis R.S. Thomas a Bedwyr Jones i newid y penderfyniad. Un fford syml yw arwyddo'r ddeiseb, ac anogwn ein darllenwyr i heidio i Babell Merched y Wawr neu i Babell Mistar Urdd lle mae copiau o'r ddeiseb yn aros am eich enw.

**Ffred Ffrancis yn rhuthro i mewn i babell Cymdeithas Tai Gwynedd gyda phunt yn ei law yn gofyn yn eiddgar 'Oes rhywun wedi buddsoddi dwy geiniogau a cheiniogau gyda chi heddiw"?**

**Dwy hen wreigen yn trwyno i babell Tai Gwynedd yn eithaf amheus. "Dewch i mewn a phrynu tocyn raffl i'n helpu ni" medd Dafydd Iwan. Meddai un, gan gamu i'r babell, ac edrych ar ei wyneb gwelw. "Iawn, da chi ddim yn edrych yn dda iawn!".**

**Ai gwir y si fod golygydd "Y Dinesydd" Medwen Roberts wedi cael ei gweld yn flinedig a than deimlad ar faes y brifwyl ddoe? Dywedodd mai dyna ganlyniad uniongyrchol talu ymweliad â phabell Cadwyn cyn mynd i chwythu drwy fesurydd alcohol Labordai Lion ym mhafiliwn Techno 78. (Gweler tud 15)**


**Cyfarfod Cyhoeddus**

Ymlaen gyda Chymdeithas yr Iaith
Cadeirydd: Gwilym E. Roberts
Siaradwyr:
Dr Pennar Davies,
Rhodri Williams
Wynfford James
Y Babell Lên: 12.30
Yfory, Dydd Sadwrn, Awst 12fed


# Llongyfarchion
## ar Siwan

**Un o uchafbwyntiau dramatig yr wythnos o safbwynt y ddrama (a hynny mewn wythnos o gyflwyniadau ar ennig o ucheleusafon) oedd perfformiad myfyrwyr cwrs drama Aberystwyth o ddrama Saunders Lewis, BLODEUWEDD. Bu canmol mawr ar berfformiad gwych Siwan Jones, wyres yr awdur, am ei dehongliad nwydus o gymeriad Blodeuwedd a llawer teyrnged i'r cynhyrchydd Mrs Emily Davies am gyfarwyddo â'r fath ynni a gweledigaeth. Hwyrach mai'r deyrnged a olygodd fwyaf i Mrs Davies oedd honno a dderbyniodd gan yr awdur ei hun. Mewn llythyr ati, dywedodd Saunders, "Rhoisoch i'm drama hen-ffasiwn i liw a threfn a chymeriad modern i'w gwneud hi'n ddrama y gallai pobl ifanc heddiw edrych arni a'i gwrando." Llongyfarchion gwresog i Mrs Davies a'r holl gwmni.**

Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Caerdydd.